



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

‘Law Yn Llaw at lechyd Meddwl’

Cynllun Cyflawni: 2016-19

Dyddiad cyhoeddi: **18 Ionawr 2016**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **4 Ebrill 2016**

Trosolwg

Cynllun Cyflawni arfaethedig *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: 2016-19*

Sut i ymateb

Anfonwch eich ymatebion yn electronig erbyn 4 Ebrill 2016 i:

mentalhealthandvulnerablegroups@wales.gsi.gov.uk

Neu, anfonwch gopi caled o'r ymateb i:

Yr Is-adran Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
4^{ydd} Llawr, (Craidd y Gogledd)
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

**Gwybodaeth
ychwanegol a
dogfennau
perthnasol**

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gais.

Manylion cyswllt

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost at:

mentalhealthandvulnerablegroups@wales.gsi.gov.uk

Diogelu data

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, i'w helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi ymatebion unigolion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol.

Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni'n ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd wneud cais i weld gwybodaeth a gaiff ei chadw gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth nad yw wedi'i chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd yn rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei hystyried. Fodd bynnag, weithiau mae'n bosibl y bydd rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriadau'n cael eu cyhoeddi – ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.

Os ydych yn dymuno inni gadw'ch ymateb yn gyfrinachol, ticiwch y blwch:

☐

Law yn llaw at lechyd Meddwl, Cynllun Cyflawni 2016 – 2019

Cyhoeddwyd *Law yn Llaw at lechyd Meddwl*,¹ strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cymru, ym mis Hydref 2012 ar ôl ymgysylltu'n eang ac ymgynghori'n ffurfiol ag asiantaethau sy'n bartneriaid allweddol, rhanddeiliaid, defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Mae'r strategaeth yn ymwneud â phob rhan o'r Llywodraeth, ac mae'n ymdrin â phobl o bobl oed. Mae'n cynnwys ystod o gamau gweithredu, o'r rheini a gynlluniwyd i wella lles meddyliol holl drigolion Cymru i'r rheini sydd eu hangen i gynorthwyo'r rhai sy'n byw â salwch meddwl difrifol a pharhaol.

Mae'r strategaeth yn cynnwys pum pennod ac mae'n seiliedig ar 18 o ganlyniadau, sydd i'w cael yn y tabl isod. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ynglŷn â'r rhain yn 2012, ac ni fyddant yn newid yn ystod oes y strategaeth. Mae'r strategaeth yn cael ei rhoi ar waith drwy gynlluniau cyflawni tair blynedd sy'n esbonio'r camau allweddol y mae angen i Lywodraeth Cymru ac asiantaethau rhanddeiliaid yn y sector statudol a'r trydydd sector eu cymryd. Roedd y cynllun cyflawni cyntaf yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2012 a 2015, a bydd hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 2016 a 2019. Cânt eu rhoi ar waith drwy'r Byrddau Partneriaeth, yn genedlaethol ac yn lleol, a cheir gwybodaeth am y cynnydd a wneir drwy gyfrwng adroddiadau cyhoeddus blyneddol gan Lywodraeth Cymru, y Byrddau Partneriaeth Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG.

Newidiadau yn y cyd-destun strategol ers cyhoeddi'r Strategaeth.

Ers cyhoeddi'r cynllun cyflawni cyntaf, bu nifer o newidiadau strategol, ac mae'r rhain wedi effeithio ar yr ail gynllun cyflawni, ac mae angen iddo adlewyrchu hynny.

1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*² ym mis Ebrill 2015 ac mae wedi cael effaith allweddol ar flaenoriaethau at y dyfodol. Nod y Ddeddf yw gorfodi cyrff cyhoeddus i roi mwy o sylw i'r tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chydai'i gilydd, ceisio atal problemau rhag codi a mabwysiadu dulliau mwy cydlynol o weithredu. Yn gryno, y nod yw annog cyrff i 'wneud yr hyn a wnânt' mewn ffordd gynaliadwy; dull a fydd yn dylanwadu ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu yn y dyfodol. Mae canlyniadau'r strategaeth (gweler y tabl canlynol) a'r meysydd y mae'r cynllun cyflawni hwn yn rhoi blaenoriaeth iddynt (gweler t.6) felly wedi'u mapio yn ôl nodau'r Ddeddf.

¹ <http://llyw.cymru/topics/health/nhswales/healthservice/mental-health-services/strategy/?skip=1&lang=cy>

² <http://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-bill/>

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Canlyniadau Lefel Uchel <i>Law yn Llaw at Iechyd Meddwl</i>	Meysydd blaenoriaeth Cynllun Cyflawni 2016-19
<u>Cymru iachach</u>	• Mae lles corfforol a meddyliol y boblogaeth gyfan yn gwella; mae pobl yn byw yn hirach, maent yn iachach ac maent yn byw mor annibynnol â phosibl am gyhyd â phosibl. • Mae gan bobl Cymru y wybodaeth a'r gefnogaeth y mae eu hangen arnynt i gynnal a gwella'u hiechyd meddwl ac i reoli eu problemau iechyd meddwl eu hunain. • Mae teuluoedd a gofalmwyr o bob oed yn cael eu hasesu i weld a oes angen cymorth arnynt i wneud eu gwaith gofalu • Mae iechyd a lles meddyliol pobl o bob oed yn gwella'n barhaus o ganlyniad i ymrwymiad pob rhan o'r Llywodraeth i sicrhau bod yr holl sectorau'n gweithio gyda'i gilydd. • Mae gwasanaethau o safon uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn cael eu darparu drwy fuddsoddi'n briodol ac yn gost effeithiol mewn iechyd meddwl.	1 3 4 7
<u>Cymru fwy cyfartal</u>	• Mae'r un gwasanaethau ar gael i bobl sydd â nodweddion gwarchodedig a grwpiau agored i niwed ac mae gwasanaethau'n ymateb yn well i anghenion poblogaeth amrywiol Cymru. • Mae pobl sydd â salwch meddwl yn dioddef llai o stigma a gwahaniaethu ac yn teimlo bod sylw'n cael ei roi i'r problemau hyn. • Mae pobl yn teimlo bod ganddynt fwy o reolaeth fel partneriaid dros benderfyniadau am eu triniaeth a'r modd y caiff ei darparu. • Mae defnyddwyr gwasanaethau'n cael gwasanaeth mwy integredig gan y rhai sy'n eu darparu. • Mae pobl o bob oed yn elwa o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a hynny cyn gynted â phosibl ac mae'n haws iddynt gael therapïau seicolegol. • Mae'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau'n cael profiadau gwell, ac mae eu diogelwch a'u hurddas yn cael ei sicrhau a'i ymwreiddio mewn gwasanaethau cynaliadwy.	2 5
<u>Cymru lewyrchus</u>	• Mae pobl a chymunedau'n gryfach ac yn ymdopi'n well â straen bywyd bob dydd ac adegau o argyfwng. • Mae lles a datblygiad plant, cyrhaeddiad addysgol a chynhyrchiant yn y gweithle yn	8

	gwella wrth inni fynd i'r afael â thlodi. Mae darparwyr yn cymryd camau pendant i reoli risg yn gadarnhaol, gan gynorthwyo pobl i obeithio a dyheu am ragor a'u galluogi i wireddu eu potensial yn llawn drwy ddulliau adfer ac ail-alluogi.	
<u>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</u>	Gall siaradwyr Cymraeg yng Nghymru gael triniaeth a gofal iechyd meddwl yn yr iaith sy'n briodol iddynt hwy, pan fo angen.	6
<u>Cymru o gymunedau mwy cydlynol</u>	- Mae pobl o bob oed ac ym mhob cymuned yng Nghymru yn cael eu cynnwys yn effeithiol yn y gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso eu gwasanaethau iechyd meddwl lleol. - Mae staff yn y gweithlu ehangach yn adnabod arwyddion a symptomau salwch meddwl a dementia ac yn ymateb iddynt. - Mae arweinwyr ysbrydoledig a digon o weithwyr cymwys sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn sicrhau diwylliant diogel, therapiwtig a pharchus sy'n grymuso	9 10

Drwy'r cynllun cyflawni hwn, rydym wedi awgrymu nifer o ddangosyddion perfformiad i fesur cynnydd. Yn ogystal â hyn, byddwn yn cynnwys y dangosyddion llesiant cenedlaethol y cytunir arnynt ar ôl ymgynghori ynghylch rhoi *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* ar waith.

2. Iechyd a Gofal Darbodus

Mae'r sector cyhoeddus yn wynebu'r her ddeublyg o gostau a galw cynyddol, a'r angen i barhau i wella safon gofal hefyd. Ers cyhoeddi'r strategaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu nifer o egwyddorion iechyd a Gofal Darbodus (<http://llyw.cymru/topics/health/nhswales/prudent-healthcare/>) y mae'n disgwyl i wasanaethau, neu unigolion sy'n eu darparu, lynu wrthynt, sef:

- Sicrhau iechyd a llesiant, gan ystyried y cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol yn bartneriaid cyfartal drwy gyd-gynhyrchu
- Gofalu am y rhai sydd â'r angen iechyd mwyaf yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau sydd ar gael
- Gwneud dim ond yr hyn sydd ei angen, dim mwy, dim llai; a gwneud dim niwed
- Lleihau amrywiaeth amhriodol gan ddefnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a hynny'n gyson ac yn dryloyw

Datblygwyd y cynllun cyflawni hwn, felly, i sicrhau bod y meysydd pwysig hyn yn rhan annatod o'r camau a gymerir.

3. Cyllid ychwanegol

Mae'r ffaith bod sefyllfa ariannol gwasanaethau iechyd meddwl sy'n cael eu hariannu gan y GIG yng Nghymru wedi gwella'n arbennig o arwyddocaol i'r cynllun cyflawni hwn. Targedwyd arian ychwanegol at feysydd iechyd meddwl y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt wrth fuddsoddi. Mae'r rhain, yn eu tro, wedi dylanwadu ar flaenoriaethau'r ail gynllun cyflawni hwn, sy'n rhoi cryn bwyslais ar ei gwneud yn haws i bobl ddefnyddio gwasanaethau, a gwella llwybrau a chanlyniadau i ddefnyddwyr. Cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar y dylid parhau i warchod cyllid ar gyfer iechyd meddwl, er mwyn parhau i ddiogelu buddsoddiad y GIG.

4. Datblygu'r cynllun cyflawni

Yn dilyn trafodaethau ag amrywiaeth o randdeiliaid drwy gydol 2015, mae'r camau allweddol yn y cynllun hwn wedi'u nodi'n ôl meysydd pwnc, a nodir hefyd y cysylltiad rhyngddynt â'r bennod wreiddiol yn y strategaeth flaenorol. Dyma'r themâu allweddol eraill a ddaeth i'r amlwg:

- Dylid cynnwys llai o gamau allweddol i sicrhau bod yr holl asiantaethau'n rhoi'r sylw priodol i'r problemau hynny sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u gofawyr
- Dylai fod yn eglur pwy sy'n gyfrifol am bob un o'r camau gweithredu (dull sydd wedi'i adlewyrchu yng Nghynllun Cyflawni 2012)
- Dylid cynnwys mesurau perfformiad pendant i ddangos yn glir a yw'r camau allweddol wedi'u cyflawni, gan gydnabod y bydd angen defnyddio mesurau procsi cadarn
- Dylai'r camau allweddol gyd-fynd â'r dull o weithredu a hyrwyddir yn y strategaeth, sef darparu gwasanaethau gydol oes, a dylid eu cyflwyno mewn ffordd sy'n atgyfnerthu'r dull hwn o weithredu (mae gwneud hyn yn cydnabod y dylid rheoli cyfnodau pontio yn ôl anghenion, yn hytrach nag oed cronolegol yn unig).

5. Meysydd blaenoriaeth

Dyma'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd o ganlyniad i'r broses ymgysylltu:

1. *Mae pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd, a hynny drwy roi'r cymorth sydd ei angen ar rieni / gofawyr*
2. *Mae gallu pob plentyn a pherson ifanc i wrthsefyll problemau'n gwella ac maent yn fwy tebygol o fedru ymdopi ag unrhyw broblem a fydd yn codi o ran eu lles meddyliol*
3. *Mae plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl yn gwella'n gynt*

4. *Mae gallu pobl oedran gweithio i wrthsefyll problemau'n gwella ac maent yn fwy tebygol o fedru ymdopi ag unrhyw broblem a fydd yn codi o ran eu lles meddyliol*
5. *Mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch*
6. *Mae gwasanaethau'n diwallu anghenion holl boblogaeth amrywiol Cymru*
7. *Mae gwasanaethau priodol ac amserol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gael i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl*
8. *Mae pobl o bob oed yn gweld eu hiechyd meddwl a'u llesiant yn gwella'n barhaus gan eu bod yn gallu manteisio ar gyfleoedd da mewn bywyd*
9. *Mae Cymru yn 'Genedl sy'n Deall Dementia'*
10. *Mae safon byw pobl hŷn yn gwella, yn enwedig drwy leihau unigrwydd ac unigedd.*

Mae'r maes blaenoriaeth olaf yn rhoi manylion ychwanegol am y modd y caiff y strategaeth hon ei rhoi ar waith yn ystod oes y cynllun cyflawni hwn.

Mae'r camau sydd i'w gweld ar y dudalen nesaf yn nodi sut y caiff pob maes blaenoriaeth ei roi ar waith, ac erbyn pryd. Er hwylustod, nodir hefyd y cysylltiad rhwng pob maes â'r bennod gyfatebol yn strategaeth 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'.

‘Law yn Llaw at Iechyd Meddwl: Cynllun Cyflawni 2016-19’ – Meysydd Blaenoriaeth

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
<i>Maes blaenoriaeth 1 – Rhaid i bob plentyn gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd a hynny drwy roi'r cymorth sydd ei angen ar rieni / gofalwyr</i>		
1.1 Sicrhau canlyniadau gwell i ferched sydd â phroblemau iechyd meddwl amenedigol, neu sydd mewn perygl o fod â phroblemau o'r fath, a chanlyniadau gwella i'w babanod a'u teuluoedd hefyd.	1.1(i) Byrddau iechyd i sicrhau bod gwybodaeth a chymorth da yn cael ei gynnig i ferched pan fyddant yn cynllunio'u beichiogrwydd yn ogystal ag yn ystod eu beichiogrwydd, a'r enedigaeth ac ar ôl yr enedigaeth. Bydd hyn yn hybu iechyd a llesiant drwy ddefnyddio rhaglenni fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Rhaglen Plentyn Iach Cymru, mentrau'r trydydd sector (gan gynnwys prosiect hyfforddiant amenedigol penodol) a Rhwydwaith Mamolaeth Cymru - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 1) 1.1(ii) Byrddau iechyd i sicrhau bod gwasanaeth amenedigol cymunedol hygyrch ar gael ym mhob ardal BILI yng Nghymru - erbyn mis Tachwedd 2016 (Pennod 3) 1.1(iii) Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod gwybodaeth a chymorth da yn cael ei gynnig i ferched pan fyddant yn cynllunio'u beichiogrwydd yn ogystal ag yn ystod eu beichiogrwydd, drwy'r enedigaeth ac ar ôl yr enedigaeth, gan ddefnyddio gwybodaeth megis 'Naw Mis a Mwy', i hybu iechyd a lles drwy roi'r fframwaith llesiant meddyliol ar waith - o fis Ebrill 2016 ymlaen. (Pennod 1)	• 10% o famau newydd mewn cysylltiad â gwasanaeth cymorth amenedigol • 100% o'r merched y nodir bod ganddynt broblemau meddyliol difrifol fel seicosis neu anhwylder deubegwn yn cael cynnig cymorth priodol gan wasanaethau yn ystod unrhyw feichiogrwydd dilynol • Y nifer sy'n manteisio ar raglenni addysgol / hyfforddi i godi ymwybyddiaeth ac i wella dulliau o reoli problemau iechyd meddwl • Nifer y gweithwyr proffesiynol sy'n defnyddio'r adnawdd Bump, Baby & Beyond

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
1.2 Mae rhieni yn cael cymorth i hybu cadernid ac ymlyniad da yn ystod babandod a'r blynyddoedd cynnar.	1.2(i) Byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gefnogi a hybu cadernid ac ymlyniad da yn ystod babandod a'r blynyddoedd cynnar, drwy ddefnyddio'r rhaglenni sydd ar gael eisoes i deuluoedd, gan gynnwys y Timau Cymorth Integredig i Deuluoedd, Timau o Amgylch y Teulu, Dechrau'n Deg a manteisio ar brofiad y trydydd sector - erbyn mis Mawrth 2019. (Pennod 1) 1.2(ii) Byrddau iechyd i weithredu Rhaglen <i>Plentyn Iach Cymru</i> yn llawn dros oes y llywodraeth nesaf (Pennod 1)	• Canran y plant yn ardaloedd Dechrau'n Deg, cyn ehangu'r rhaglen, sy'n cyrraedd neu'n rhagori ar eu cerrig milltir datblygiadol, neu'n dod o fewn un band oedran iddynt, pan fyddant yn 3 oed. • Fframwaith Canlyniadau Blynyddoedd Cynnar
<i>Maes blaenoriaeth 2 – Mae gallu pob plentyn a pherson ifanc i wrthsefyll problemau'n gwella ac maent yn fwy tebygol o fedru ymdopi ag unrhyw broblem a fydd yn codi o ran eu lles meddyliol</i>		
2.1 Datblygu cadernid a lles emosiynol plant a phobl ifanc Cymru mewn lleoliadau addysgol.	2.1(i) Llywodraeth Cymru (Addysg) i ystyried casgliadau'r adolygiad o wahanol ddulliau o hybu lles emosiynol plant mewn ysgolion cynradd, wrth ddatblygu polisiau o 2016 ymlaen. (Pennod 1) 2.1(ii) Ysgolion Arloesi (cynradd, uwchradd ac arbennig) i weithio gydag arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill fel rhan o Bartneriaeth Cymru i arwain y gwaith o gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd. Mae hyn yn deillio o adroddiad yr Athro Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus', ac mae'n	<i>Fel rhan o'r gwaith a nodir yn (i) a (ii) ystyrir y mesurau priodol.</i> Gan hynny, mae'r dangosyddion a ganlyn yn gymwys i (iii) yn unig: • Nifer / canran y staff priodol yn y gwasanaethau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol sy'n cael yr hyfforddiant perthnasol • Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) i enwebu person cyswllt ac i nodi amseroedd i roi cyngor ac arweiniad i bob ysgol yng Nghymru

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	cynnwys y Maes Dysgu a Phrofiad sy'n ymwneud ag Iechyd a Lles. Bydd Ysgolion Arloesi yn gweithio ar gynllunio'r fframwaith cwricwlwm newydd o fis Ionawr 2016 ymlaen. Bwriedir i'r cwricwlwm fod ar gael mewn lleoliadau ac ysgolion - erbyn mis Medi 2018. (Pennod 4) 2.1(iii) Rhaglen <i>Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc</i>, dan arweiniad y GIG, i hyrwyddo'r modiwl hyfforddi staff amlasiantaeth cenedlaethol drwy Gymru sy'n cynnwys iechyd, addysg a gofal cymdeithasol - o fis Mehefin 2016 ymlaen. (Pennod 1) 2.1 (iv) Iechyd Cyhoeddus Cymru i roi fframwaith lles meddyliol ar waith i sicrhau bod cymorth ar gael i ddatblygu cadernid a lles emosiynol plant a'r glasoed tra byddant yn yr ysgol - o fis Ebrill 2016 ymlaen (Pennod 1)	• Sgôr boddhad bywyd (Ymddygiad Iechyd Plant Ysgol)
2.2 Cynorthwyo plant a phobl ifanc hyd at 25 oed sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion iechyd meddwl.	2.2(i) Llywodraeth Cymru (Addysg) i arwain y gwaith o gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yn ymwneud â diwygio anghenion dysgu ychwanegol yn ystod tymor nesaf y Cynulliad. (Pennod 4) 2.2(ii) Llywodraeth Cymru (Addysg) i weithio gyda phartneriaid i wella gallu'r gweithlu addysg i helpu dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol - erbyn mis Mawrth 2016. (Pennod 4)	• Nifer/canran y dysgwyr y nodir bod ganddynt anawsterau ymddygiad, anawsterau emosiynol a chymdeithasol • Nifer/canran y dysgwyr sy'n cyrraedd lefel 2 cynhwysol yng Nghyfnod Allweddol 4 • Nifer/canran y dysgwyr ag anawsterau ymddygiad ac anawsterau emosiynol a chymdeithasol sy'n cyrraedd lefel 2 cynhwysol yng Nghyfnod Allweddol 4

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
2.3 Gwella lles plant a phobl ifanc sy'n fwy tebygol o fod â lles meddyliol gwael, gan roi sylw arbennig i blant mewn grwpiau sy'n agored i niwed fel plant â nam ar eu synhwyrâu, anableddau dysgu, troseddwy'r ifanc, plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr ifanc.	2.3(i) Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Cymdeithasol) i adnewyddu <i>Strategaeth Gofalwyr Cymru yn 2016</i>. Bydd hyn yn cynnwys ystyried yr hawliau ychwanegol a roddwyd iddynt drwy'r <i>Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)</i> a llesiant gofalwyr gan gynnwys gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc. (Pennod 2) 2.3 (ii) Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Cymdeithasol) i ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, i helpu i wella canlyniadau ac i ystyried sut y gellir gwella rhaglenni ymyrraeth gynnar a'r camau ataliol a gymerir i helpu i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal - o 2016 ymlaen. (Pennod 2) 2.3 (iii) Bydd Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Cymdeithasol) yn ymdrin ag achosion o fwlio plant a phobl ifanc yn yr ysgol a'r gymuned (Parhaus). (Pennod 1) 2.3 (iv) Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Cymdeithasol) i helpu i wella canlyniadau personol plant a phobl ifanc mewn sefydliadau diogel gan ystyried sut y gellir gwella rhaglenni ymyrraeth gynnar a'r camau ataliol a gymerir i helpu plant a phobl ifanc - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 1)	<i>Fel rhan o'r ymgynghoriad ynghylch fframwaith canlyniadau iechyd cyhoeddus gofynnwyd am sylwadau ar y dangosyddion priodol.</i> • Gofal a chymorth ar gael i blant a phobl ifanc mewn mannau diogel • Nifer yr awdurdodau lleol sy'n sefydlu systemau cyfeirio i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu o ran y gofal a'r cymorth sydd ei angen arnynt os caiff eu rhieni eu carcharu • Gofal a chymorth ar gael i blant a phobl ifanc sydd â phroblem iechyd meddwl

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	2.3 (v) Llywodraeth Cymru (Gwasanaethau Cymdeithasol) i helpu i wella canlyniadau personol plant a phobl ifanc sy'n dioddef oherwydd bod rhiant wedi'i garcharu, gan ystyried sut y gellir gwella rhaglenni ymyrraeth gynnar a'r camau ataliol a gymerir i helpu plant a phobl ifanc - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 1)	
Maes blaenoriaeth 3 – Mae plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl yn gwella'n gynt.		
3.1 Sicrhau bod gwasanaethau priodol ac amserol ar gael i blant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl a hynny mor agos ag sy'n ymarferol bosibl i'w cartrefi.	3.1(i) Byrddau iechyd i fod â gwasanaethau addas i asesu'r rhai sy'n cael eu cyfeirio ar frys. Ni ddylai unrhyw blentyn mewn argyfwng orfod aros dros 48 awr i gael ei asesu gan arbenigwr os nodwyd bod angen cymorth o'r fath arno (Parhaus). (Pennod 3) 3.1 (ii) Pobl ifanc sydd mewn argyfwng ac sydd yng ngofal yr heddlu'n cael eu hasesu mewn lle addas ac yn amserol. <i>Ni ddylid defnyddio'r ddalfa ar gyfer plant o dan 18 oed</i> - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 3) 3.1 (iii) Byrddau iechyd i sicrhau bod dwy uned breswyl CAMHS yng Nghymru yn gweithredu'n ddiogel ac yn effeithiol, ac i sicrhau nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli'r tu allan i'w hardaloedd lleol os yw hynny'n bosibl (Pennod 3)	• Plant a phobl ifanc mewn argyfwng yn cael eu hasesu cyn pen 48 awr yng Nghymru • Nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n cael eu lleoli'r tu allan i'w hardaloedd lleol yn gostwng 10% islaw gwaelodlin 2013/14 bob blwyddyn • Amseroedd aros yn gostwng i 28 diwrnod yn achos plant a phobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio at CAMHS • Gwasanaethau argyfwng a gwasanaethau cyswllt seiciatreg CAMHS ar gael 7 diwrnod yr wythnos ym mhob bwrdd iechyd erbyn mis Gorffennaf 2016 • Llai yn cael eu cyfeirio gan Dimau Troseddau leuenctid at wasanaethau arbenigol CAMHS, neu wasanaethau arbenigol eraill, (dangosydd y Bwrdd Cyfiawnder leuenctid yn dechrau fis Ebrill 2016) • Lleihau'r amser y mae'n ei gymryd i Dimau Troseddau leuenctid drefnu i bobl ifanc gael

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	3.1(iv) Byrddau iechyd i weithredu'r llwybrau gofal a nodir yn y Fframwaith Ansawdd a Chyflawni a gynhyrchwyd dan <i>Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc</i> ar gyfer CAMHS o fis Mehefin 2016 ymlaen. 3.1(v) Byrddau iechyd i sefydlu ac yna monitro proses o adnabod y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n cael eu cadw yn un o fannau diogel yr heddlu, drwy 'ddigwyddiadau na ddylent fyth ddigwydd / digwyddiadau difrifol' - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 3) 3.1(vi) Gweithio gyda'r byrddau iechyd, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Adran Diogelwch Cymunedol a Llywodraeth Cymru i adolygu effeithiolrwydd Canllawiau Gweithredu Polisi 2014 o safbwynt ymdrin â phroblemau iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol mewn modd amserol a phriodol - erbyn mis Ionawr 2017. (Pennod 4) 3.1(vii) Byrddau iechyd i weithio gyda chymorth Llywodraeth Cymru / y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i gyhoeddi llwybr gofal cytunedig i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cyfeirio'n briodol rhwng CAMHS / gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol a'r System Cyfiawnder Ieuenctid - erbyn mis Ionawr 2017. (Pennod 4)	cyngor arbenigol gan CAMHS. (dangosydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn dechrau fis Ebrill 2016) • Ni chaiff unrhyw blentyn ei gadw yn y ddalfa erbyn mis Mawrth 2017 a bydd trefniadau eraill ar waith yn ardal pob bwrdd iechyd • Glynu at Fframwaith Ansawdd a Chyflawni Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc.

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
3.2 Aseidiadau a thriniaethau amserol ar gael i blant a phobl ifanc sydd â chyflwr niwroddatblygiadol (fel anhwylder ar y sbectrwm awtistig neu anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd) i'w helpu i barhau i ddatblygu'n gymdeithasol ac yn bersonol.	3.2(i) Byrddau iechyd i ddatblygu gwasanaethau priodol gan weithio gyda'r awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn eu hardaloedd i asesu, rhoi diagnosis a rheoli cyflyrau niwroddatblygiadol gan ddefnyddio dulliau amlddisgyblaeth o weithio - erbyn mis Mehefin 2016. (Pennod 3). 3.2(ii) Iechyd Cyhoeddus Cymru (gwasanaeth gwella 1000 o fywydau), ar y cyd â Llywodraeth Leol Cymru i redeg rhaglen gwella i roi'r uchod ar waith ac i ddatblygu gwasanaethau ehangach ar gyfer cyflyrau niwroddatblygiadol - erbyn mis Mehefin 2016: • Mabwysiadu pecynnau cymorth integredig i wneud diagnosis/asesu cyflyrau niwrolegol a llwybr gofal cyffredin drwy Gymru. • Amrywiaeth o wasanaethau cymorth ac ymyrraeth, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gael ar ôl cael diagnosis. (Pennod 3)	• Disgwylir i bob bwrdd iechyd gyflwyno adroddiad cynnydd fel rhan o adroddiad blynyddol y bwrdd partneriaeth lleol • Amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol i bobl ifanc yn gostwng i 26 wythnos erbyn mis Mawrth 2017
<i>Maes blaenoriaeth 4 – Mae gallu pobl oedran gweithio i wrthsefyll problemau'n gwella ac maent yn fwy tebygol o fedru ymdopi ag unrhyw broblem a fydd yn codi o ran eu lles meddyliol</i>		
4.1 Gwybodaeth a chynghor priodol ar gael i bobl Cymru i hybu eu lles ac i'w helpu i ddeall / rheoli eu cyflyrau.	4.1(i) Byrddau iechyd i ddarparu neu gomisiynu ymyrraeth lefel isel hygyrch (Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol) a <i>Haen 0</i>) fel cyrsiau rheoli	• Canran y defnyddwyr gwasanaethau, y gofalmwyd a'r meddygon teulu drwy Gymru yn cytuno'n gryf neu'n cytuno'n rhannol bod

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	pryder ac ymwybyddiaeth ofalgar mewn lleoliadau cymunedol drwy Gymru - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 2) 4.1 (ii) Llywodraeth Cymru (Iechyd y Cyhoedd), gyda phartneriaid, i godi ymwybyddiaeth o wybodaeth a chymorth haen 0 ac i'w gwneud yn haws eu defnyddio - erbyn mis Mawrth 2018. (Pennod 1)	gwasanaethau effeithiol ar gael (Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol) • Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol and to report upon: service user satisfaction; carer satisfaction and GP satisfaction. • Y nifer sy'n cael triniaeth a chynghor gan y Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol bob blwyddyn • Yr un nifer, neu ragor, yn ffonio Llinell Gymorth CALL / 111 ag a wnaeth yn 2015 • Y nifer sy'n defnyddio Presgripsiwn Llyfrau Cymru/ Llyfrau Llesol Cymru • Graddfa Lles Meddyliol Warwick-Caeredin
4.2 Atal a lleihau hunanladdiad a hunan-niwed yng Nghymru.	4.2(i) Byrddau iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol a'r trydydd lleol i roi Cynllun Gweithredu <i>Siarad â fi</i> 2 ar waith. Mae i'w weld yn: http://llyw.cymru/topics/health/publications/health/reports/talk2/?skip=1&lang=cy - erbyn mis Mawrth 2019. (Pennod 1)	• Y nifer sy'n cyflawni hunanladdiad yn is na gwaelodlin 2014/15 - ONS • Lles meddyliol – arolwg cenedlaethol • Y nifer sy'n cael eu hanfon i ysbytai Cymru wedi iddynt niweidio'u hunain <i>Mae'r camau allweddol yn cynnwys rhaglen waith dreigl a bydd y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed yn ei adolygu ac yn cyflwyno adroddiad arno bob blwyddyn. Cyhoeddir yr adroddiad cyntaf fis Ebrill 2016 a hwn fydd yr adroddiad sylfaenol yng nghyd-destun y ddogfen hon.</i>

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
4.3 Hybu lles meddyliol a, phan fo modd, atal problemau iechyd meddwl rhag datblygu.	4.3 (i) Llywodraeth Cymru (Iechyd Cyhoeddus) ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i helpu gweithleoedd i wella lles meddyliol a llesiant eu staff - erbyn mis Mawrth 2019. (Pennod 1)	• Canran y boblogaeth gweithio sy'n rhan o raglen Cymru Iach ar Waith
<i>Maes blaenoriaeth 5 – Mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl, eu teuluoedd a'u gofalwyr yn cael eu trin ag urddas a pharch</i>		
5.1 Sicrhau bod yr holl wasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu ar sail diogelwch, urddas a pharch.	5.1(i) Iechyd Cyhoeddus Cymru (gwasanaeth gwella 1000 o fywydau) i hwyluso Cymuned Ymarfer ar gyfer wardiau preswyl seiciatrig pobl hŷn y GIG yng Nghymru i rannu dysgu a gwella'r gwasanaeth drwy hybu gofal urddasol. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad dan arweiniad cymheiriaid - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 3) 5.1(ii) Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), awdurdodau lleol a'r byrddau iechyd i ddatblygu safonau ar gyfer hyfforddiant ar ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y <i>Ddeddf Gallu Meddyliol</i> - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 3)	• Caiff canlyniadau gwasanaethau pobl hŷn y Gymuned Ymarfer ar gyfer gofal urddasol eu gwerthuso, eu cyhoeddi a'u rhannu • Gwersi a ddysgwyd oddi wrth y broses o ymdrin â digwyddiadau anffodus • Bydd 60% o staff wedi cael yr hyfforddiant priodol fel y nodir ar gyfer eu rôl ym mhrosiect meincnodi dementia cydweithredol Cymru • Rhagor yn defnyddio system bodlonrwydd defnyddwyr a gofalwyr fel 'Rwyf am gael gofal gwyh' • Y ganran sy'n teimlo'u bod wedi'u trin â pharch (Arolwg Cenedlaethol) • Y nifer sy'n dweud y cawsant eu trin ag urddas gan y gwasanaethau gofal a chymorth.
5.2 Sicrhau bod ymdrech bendant i barhau i leihau'n gynaliadwy'r stigma a'r gwahaniaethu sy'n wynebu pobl â phroblemau iechyd meddwl.	5.2 (i) Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol), a'r partneriaid, i herio gwahaniaethu ac i wella gwybodaeth a dealltwriaeth o'r stigma a'r gwahaniaethu sydd ynghlwm wrth broblemau iechyd meddwl yng	• Nifer y sefydliadau sy'n rhan o addewid Amser i Newid Cymru (TTCW) • Nifer yr Hyrwyddwyr TTCW • Y newid canrannol yn agwedd y cyhoedd at broblemau iechyd meddwl

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	Nghymru drwy gyfarfod wyneb yn wyneb â sefydliadau allweddol, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd - erbyn mis Rhagfyr 2017. (Pennod 2)	Nifer y cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng gweithwyr proffesiynol neu aelodau o'r cyhoedd
5.3 Sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n teimlo bod ganddynt lais a'u bod yn cyfrannu'n llawn at benderfyniadau'n ymwneud â'u gofal eu hunain	5.3(i) Byrddau iechyd, awdurdodau lleol ac asiantaethau yn y trydydd sector i weithio gyda defnyddwyr gwasanaethau fel partneriaid cyfartal i wella ansawdd cynlluniau gofal a thriniaeth, sy'n seiliedig ar ganlyniadau, pan fo modd. (Pennod 3) 5.3 (ii) Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i helpu i ddatblygu a rhannu adnoddau e-ddysgu ymhlith staff, i feithrin dealltwriaeth o brofiadau'r rhai sy'n byw â phroblemau iechyd meddwl - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 5) 5.3(iii) Byrddau iechyd a darparwyr yn y trydydd sector i gynnal arolygon bodlonrwydd o ddefnyddwyr gwasanaethau a'u profiadau o Gynlluniau Gofal a Thriniaeth - erbyn mis Mawrth 2017 ac i gyflwyno adroddiad bob blwyddyn. (Pennod 3) 5.3(iii) Rhaglen <i>Gyda'n Gilydd dros Blant a Phobl Ifanc (T4CYP)</i>, dan arweiniad y GIG i weithio mewn partneriaeth â swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, prosiect 'Cymru Ifanc' Plant yng Nghymru a menter gydweithredol y trydydd sector, 'Gwneud	- Cynyddu canran y defnyddwyr gwasanaethau ar hyd a lled Cymru sy'n dweud mewn arolygon blynyddol eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno'n rhannol eu bod yn fodlon / yn teimlo'u bod yn cael cyfrannu at eu cynlluniau gofal a thriniaeth - Sylwadau o'r broses 'Fe ddywedoch chi, fe wnaethom ni' drwy T4CYP - Pobl yn dweud eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniad yn ymwneud â'r gofal a'r cymorth a gânt - Gofalwyr sy'n dweud eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniad a wneir am y gofal a'r cymorth a gânt

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	Synnwyr,' i wrando ac ymateb i sylwadau plant a phobl ifanc ym mhob agwedd ar y rhaglen gan roi cyfle iddynt lywio a herio'r newidiadau arfaethedig - erbyn mis Ebrill 2017 a bob blwyddyn wedi hynny. (Pennod 2)	
5.4 Sicrhau bod teuluoedd a gofalwyr yn cymryd rhan lawn yn y broses o ddatblygu gwasanaethau a chynllunio gofal	5.4 (i) Awdurdodau lleol, drwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, i sicrhau bod gofalwyr yn cael cynnig asesiad os yw'n ymddangos bod, neu y bydd, angen cymorth arnynt fel rhan o'u rôl gofalu a sicrhau eu bod yn diwallu anghenion gofalwyr sydd ag anghenion cymwys erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 2) 5.4(ii) Byrddau iechyd ac awdurdodau lleol i baratoi a gweithredu strategaeth ar y cyd i ofalwyr erbyn mis Ebrill 2017 a fydd yn cynnwys: • darparu gwybodaeth a chanllawiau i ofalwyr; • hybu ymgysylltiad adeiladol â gofalwyr wrth benderfynu ar y gwasanaethau i'w darparu iddynt hwy eu hunain a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt. (Pennod 2)	• Canran y cynlluniau gofal a thriniaeth sy'n dangos bod y gofalwr a'r teulu (lle bo hynny'n berthnasol) wedi cyfrannu atynt, yn ôl arolwg lleol • Pobl yn dweud eu bod wedi cael y wybodaeth neu'r cyngor pan oedd ei angen arnynt
5.5 Sicrhau bod pobl mewn argyfwng ac sydd mewn cysylltiad â'r heddlu yn cael eu rheoli'n briodol ag urddas a pharch.	5.5(i) Yr holl bartneriaid, gan gynnwys yr heddlu, y byrddau iechyd, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwylans Cymru i lynu wrth egwyddorion y concordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl i sicrhau bod y rhai a gaiff eu	• Gostyngiad yn y nifer sy'n cael eu cludo gan yr heddlu / cynnydd yn y nifer s'n cael eu cludo mewn ambiwlans mewn achosion o argyfwng neu os cânt eu cadw o dan y

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	cadw o dan bwerau adrannau 135 ac 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael lefel gwasanaethau gwell a mwy priodol - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 3)	Ddeddf Iechyd Meddwl.
Maes blaenoriaeth 6 – Mae gwasanaethau'n diwallu anghenion holl boblogaeth amrywiol Cymru		
6.1 Lleihau anghydraddoldeb ymhlith grwpiau agored i niwed sydd â phroblemau iechyd meddwl, gan sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar yr un gwasanaethau iechyd meddwl â phawb arall.	6.1(i) Llywodraeth Cymru (Iechyd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed) i roi canllawiau a gwybodaeth i'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol am wasanaethau cymorth i bobl â nodweddion gwarchodedig - erbyn mis Rhagfyr 2017. (Pennod 2) 6.1(ii) Byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i sicrhau bod pawb sy'n gweithio ym maes gofal iechyd, cyhyd ag y bo modd, wedi cwblhau'r pecyn e-ddysgu ar gydraddoldeb, <i>Fy Nhrin yn Deg</i>, yn ymwneud â grwpiau agored i niwed perthnasol, fel rhan o raglen dreigl. Datblygwyd y pecyn gan Ganolfan Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y GIG (CEHR) a GIG Cymru – erbyn mis Rhagfyr 2016. (Pennod 5)	• Nifer a chanran y staff gofal iechyd sy'n cwblhau'r pecyn e-ddysgu <i>Fy Nhrin yn Deg</i> • Yr un ganran o ddefnyddwyr gwasanaethau o grwpiau gwahanol, gan gynnwys grwpiau ethnig a phobl anabl, ar hyd a lled Cymru, sy'n dweud mewn arolwg lleol eu bod yn cytuno'n gryf neu'n cytuno'n rhannol eu bod wedi cyfrannu at eu cynllun gofal a thriniaeth • Byrddau iechyd i gynnal hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth ac amrywiaeth ddiwylliannol
6.2. Sicrhau bod gwasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i siaradwyr Cymraeg pan fo angen a chynyddu gallu ieithyddol y gweithlu.	6.2(i) Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i greu adnawdd ar-lein i holl staff y GIG a'r gwasanaethau cymdeithasol i'w helpu i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg heb iddynt orfod gofyn amdanynt) - erbyn mis	• Y nifer sy'n dweud, mewn arolygon, fod y broses o gynllunio'u gofal a'u triniaeth yn cyfeirio at eu hangen i gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg • Safonau'r Gymraeg yn cael eu bodloni

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	Ebrill 2017. (Pennod 2) 6.2(ii) Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i gryfhau'r ddarpariaeth sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg i gleifion a defnyddwyr gwasanaethau drwy weithredu'r strategaeth sy'n olynu <i>Mwy na Geiriau</i> - o fis Ebrill 2016 ymlaen ac i baratoi adroddiad cynnydd ddwywaith y flwyddyn tan fis Mawrth 2019. (Pennod 2)	• Y nifer sy'n dweud eu bod wedi gallu cyfathrebu yn eu dewis iaith
Maes blaenoriaeth 7 - Mae gwasanaethau priodol ac amserol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar gael i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl		
7.1 Sicrhau bod lles meddyliol yn cael yr un flaenoriaeth â lles corfforol wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau.	7.1(i) Byrddau iechyd i feithrin gallu i greu cyswllt seiciatrig iechyd meddwl effeithiol mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth erbyn mis Mawrth 2017 ac i fesur effaith y gwasanaeth - erbyn mis Mawrth 2018. (Pennod 4) 7.1(ii) Byrddau iechyd i sefydlu gwasanaeth cyswllt iechyd corfforol effeithiol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 4)	• Pob claf sy'n cael meddyginiaeth gwrthseicotig ar bresgripsiwn i gael archwiliad iechyd corfforol a'r ymyriadau priodol yn unol â chanllawiau NICE 2016 (yn ôl tystiolaeth archwiliad lleol) • Gwasanaethau cyswllt seiciatrig ar gael ym mhob ysbyty cyffredinol dosbarth erbyn 2017 • Gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n mynd yn ôl i'r ysbyty cyn pen 30 diwrnod
7.2 Sicrhau bod therapïau seicolegol amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gael i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl.	7.2(i) Byrddau iechyd i'w gwneud yn haws i oedolion gael therapïau seicolegol sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn unol â chynllun gweithredu'r Pwyllgor Rheoli Therapïau Seicolegol Cenedlaethol (NPTMC) - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 3)	• Byrddau iechyd i roi gwybodaeth yn adroddiad blynyddol eu bwrdd partneriaeth lleol am y targed i drin pob claf ymhen 26 wythnos wedi iddynt gael eu cyfeirio at y gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol eilaidd, gan gynnwys cleifion preswyl

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
		• 80% o gleifion a gyfeirir at Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol yn cael eu trin ymhen y targed o 28 diwrnod • Systemau ar waith i nodi ymyriadau seicolegol a'r amseroedd aros ar gyfer yr elfennau hyn ym mhhecyn data presennol y Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol
7.3 Sicrhau bod gwasanaethau amserol a phriodol ar gael i'r rhai sy'n dioddef cyfnod o seicosis am y tro cyntaf.	7.3(i) Byrddau iechyd i ddarparu rhagor o therapïau ac ymyriadau seicolegol sy'n cydymffurfio â chanllawiau NICE i'r rhai sy'n dioddef cyfnod o seicosis (EIP) am y tro cyntaf – erbyn mis Mehefin 2016. (Pennod 3)	• Gwasanaeth EIP ar waith mewn 100% o fyrddau iechyd • Llwybrau gofal lleol ar waith i sicrhau bod y rhai yr amheuir eu bod yn dioddef o seicosis yn cael eu trin ar fyrder ac yn cael eu hasesu ymhen 48 awr, a phrosesau ar waith hefyd i wasanaethau EIP archwilio hyn • 100% o bobl ifanc 14-25 oed yn cael eu hasesu a'u cynorthwyo gan y tîm EIP, gyda chymorth y tîm lleol, os amheuir eu bod yn dioddef seicosis neu os ydynt yn dioddef cyfnod o seicosis am y tro cyntaf, a chânt gynnig ymyriadau sy'n cydymffurfio â chanllawiau NICE • Hyd cyfnodau o seicosis heb ei drin yn cael ei fesur gan yr holl wasanaethau EIP a'r wybodaeth yn cael ei rhannu mewn adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau.

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
7.4 Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu dull integredig o weithio.	7.4 (i) Awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion gofalwyr sydd â'u hanghenion cymwys eu hunain – erbyn mis Ebrill 2017. (Pennod 4) 7.4 (ii) Byrddau iechyd i sicrhau bod cysylltiadau rhwng gwasanaethau cynghori a rhwydweithiau lleol a chenedlaethol perthnasol, fel y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth a sefydlwyd o dan y <i>Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)</i>, a bod cleientiaid, teuluoedd a gofalwyr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt – erbyn mis Ebrill 2017. (Pennod 4) 7.4(iii) Awdurdodau lleol a byrddau iechyd i gynnal asesiad ar y cyd o anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys anghenion gofalwyr, ym mhob awdurdod lleol - erbyn mis Ebrill 2017. (Pennod 4)	• Nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal ym mhob 10,000 o boblogaeth awdurdodau lleol • Nifer yr adroddiadau a gwblheir drwy Gymru i asesu'r boblogaeth o dan y <i>Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)</i>
7.5 Sicrhau bod cysylltiadau cryf rhwng gofal sylfaenol ac iechyd meddwl.	7.5(i) Byrddau iechyd a chlystyrau gofal sylfaenol i weithio gyda'i gilydd i gwblhau dadansoddiad o anghenion / dealltwriaeth o ofynion lleol er mwyn datblygu gofal mwy effeithiol sy'n canolbwyntio ar y person, ac i esbonio sut y caiff yr angen hwn ei ddiwallu mewn cynlluniau clwstwr, cynlluniau byrddau iechyd a chynlluniau ffurfiol eraill gan gynnwys Cynlluniau Tymor Canolig Integredig y byrddau iechyd.	• Cynlluniau Tymor Canolig Integredig yn dangos sut y bydd gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd meddwl yn darparu gofal integredig • Ymyriadau gan amrywiaeth eang o bobl broffesiynol

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	Erbyn mis Ebrill 2017, y byrddau iechyd i gymryd camau pendant i nodi yn eu cynlluniau tymor canolig integredig y cyfleoedd i bobl nad ydynt yn staff meddygol gynorthwyo â gwaith y clystyrau ac i ystyried yr anghenion a ganlyn, ymhlith eraill: • Plant a phobl ifanc • Mamolaeth a'r blynyddoedd cynnar • Pobl hŷn • Troseddwyr • Pobl â nodweddion gwarchodedig • Y Gymraeg. (Pennod 4) 7.5 (ii) Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i weithio gyda'r byrddau iechyd a'r clystyrau i nodi ffyrdd o ddefnyddio therapyddion ym maes gofal sylfaenol i hwyluso defnydd mwy priodol o adnoddau ac i'w gwneud yn haws cael gwasanaethau priodol - erbyn mis Ebrill 2017. (Pennod 4)	
7.6. Sicrhau bod gwasanaethau priodol ac amserol ar gael i bobl o bob oed sydd ag anhwylder bwyta.	7.6(i) Byrddau iechyd i sicrhau bod y fframwaith anhwylder bwyta diweddaraf ar gyfer oedolion, plant a phobl ifanc yn cael ei roi ar waith yn llawn drwy Gymru yn unol â chanllawiau NICE, a bod triniaeth amserol ar gael - erbyn mis Medi 2017. (Pennod 3)	• Gostyngiad o 50% mewn lleoliadau y tu allan i ardal y rhai sy'n cael eu trin erbyn 2017/18, gan ddefnyddio gwaelodlin 2013/14

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	7.6(ii) Byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau i drin anhwylder bwyta mor agos â phosibl at gartrefi'r rhai sy'n cael eu trin, naill mewn lleoliadau preswyl neu yn y gymuned - erbyn mis Medi 2016. (Pennod 3)	
7.7 Sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl i gyn-filwyr Cymru sydd â phroblemau iechyd meddwl yn gynaliadwy ac yn gallu diwallu anghenion y boblogaeth honno yn amserol ac yn briodol.	7.7(i) Byrddau iechyd yn parhau i gynorthwyo GIG Cyn-filwyr Cymru yn darparu gwasanaethau amserol a phriodol i gyn-filwyr sy'n dioddef o Anhwylder Straen Wedi Trawma. (Parhaus). (Pennod 3)	• Data rheoli byrddau iechyd a GIG Cymru i Gyn-filwyr yn ymwneud â chyfeirio cyn-filwyr at wasanaethau, gwella amseroedd aros a chanlyniadau'n gynyddraddol ac yn cydymffurfio â thargedau Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol.
7.8 Sicrhau bod gwasanaeth iechyd meddwl amserol a phriodol ar gael i'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl ac yn dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.	7.8(i) Byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl mewnol yng ngharchardai Cymru, fel y nodir yn y canllawiau gweithredu polisi a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2014, gan wella'r cymorth a'r driniaeth sydd ar gael i'r rhai ag anghenion iechyd meddwl - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 3) 7.8(ii) Y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd (NOMS) i'w gwneud yn haws manteisio ar wasanaethau sy'n bodloni Gofynion Triniaeth Iechyd Meddwl fel rhan o orchymyn cymunedol i droseddwyd sydd â phroblemau iechyd meddwl islaw'r trothwy ar gyfer dedfryd o garchar ac sy'n cael, neu y dylent fod yn cael, triniaeth ddiogel i gleifion mewnol - erbyn mis Mawrth 2018. (Pennod 4)	• Pob carcharor yn cael ei sgrinio wrth gyrraedd y carchar gan roi'r pwyslais ar hunan-niwed, hunanladdiad a chamddefnyddio sylweddau • Safonau iechyd meddwl Coleg Brenhinol y Seiciatryddion ar waith, ynghyd ag achrediad, yn y pedwar carchar yng Nghymru erbyn 2018 • NOMS i olrhain canlyniadau perfformiad i'r rhai sy'n cyrraedd y trothwy. Ar ôl gwneud gorchmynion, cânt eu rhoi ar waith drwy'r broses rheoli troseddwyd • Yn gyffredinol, llai yn cael eu cadw o dan adran 136 - o'r naill flwyddyn i'r llall – yn ôl meincnod 14/15, sef 1,460 • Llai o bobl â nodweddion gwarchodedig (yn enwedig dynion duon ac o leiafrifoedd

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	7.8(iii) Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol)/ byrddau iechyd i wella ansawdd y Gwasanaethau Cyswllt Cyfiawnder Troseddol er mwyn medru cyfeirio unigolion, ac weithiau eu dargyfeirio, at wasanaeth mwy priodol - erbyn mis Mawrth 2018. (Pennod 4)	ethnig) yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, gan gynnwys adran 136 <i>Mae disgwyl i adroddiad gwerthuso Gwasanaethau Cyswllt Cyfiawnder Troseddol gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2016 ac y bydd yn helpu i ddatblygu dangosyddion perfformiad newydd.</i>
7.9 Sicrhau bod gwasanaethau amserol a phriodol ar gael i'r rhai sy'n cael eu cadw mewn mannau diogel.	7.9(i) Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) gan weithio gyda Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) a phartneriaid eraill i adolygu ac adnewyddu'r cynllun gweithredu presennol ar gyfer gwasanaethau diogel - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 3)	<i>Mesurau perfformiad i'w datblygu o 2017/18 ymlaen</i>
7.10 Sicrhau bod problemau iechyd meddwl a phroblemau cam-ddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd yn cael eu rheoli'n effeithiol.	7.10(i) Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau a Byrddau Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol i baratoi a chyflwyno cynlluniau gweithredu ar y cyd i Lywodraeth Cymru yn esbonio sut y byddant yn gweithredu'r Fframwaith ar gyfer trin problemau iechyd meddwl a phroblemau camddefnyddio Sylweddau sy'n cyd-ddigwydd - erbyn mis Mehefin 2016. (Pennod 3) 7.10(ii) Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau a Byrddau Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol i roi trefniadau a llwybrau gofal integredig clir ar waith ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl	• 70% o'r staff perthnasol yn gallu dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ffurfiol mewn meysydd perthnasol erbyn 30 Mehefin 2016 • 100% o'r staff perthnasol yn gallu dangos eu bod wedi cael hyfforddiant ffurfiol mewn meysydd perthnasol erbyn 31 Mawrth 2018 • Byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn cytuno ar lwybrau gofal a threfniadau lleol a byddant ar waith erbyn 2016 (ac wedi'u cyhoeddi ar eu gwefan) erbyn 30 Mehefin 2016

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	rhwng camddefnyddio sylweddau - erbyn mis Mehefin 2016 a'u hadolygu bob blwyddyn wedi hynny. (Pennod 3) 7.10(iii) Byrddau Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau a Byrddau Partneriaeth Iechyd Meddwl Lleol i wella archwiliadau ar y cyd a chynnal adolygiad ddwywaith y flwyddyn o'r canlynol: • arweinyddiaeth glinigol effeithiol • datrys gwahaniaeth barn broffesiynol • darparu hyfforddiant seiliedig ar allu • cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn y broses o gynllunio a gwerthuso gwasanaethau lleol. (Pennod 3)	
<i>Maes blaenoriaeth 8: Mae pobl o bob oed yn gweld eu hiechyd meddwl a'u llesiant yn gwella'n barhaus gan eu bod yn gallu manteisio ar gyfleoedd da mewn bywyd</i>		
8.1 Pobl â phroblemau iechyd meddwl yn gallu manteisio ar wasanaethau tai a chymorth cysylltiedig, a sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl ar gael i bobl ddigartref neu bobl heb gartref sicr.	8.1(i) Llywodraeth Cymru (Tai) i gomisiynu gwaith ymchwil ar fynd i'r afael â digartrefedd (gan gynnwys pobl â phroblemau iechyd meddwl) a gweithredu ar y canlyniadau, drwy archwilio effaith <i>Deddf Tai (Cymru) 2014</i> - erbyn mis Gorffennaf 2018. (Pennod 4) 8.1(ii) Llywodraeth Cymru (Tai) i'w gwneud yn haws i bobl ddigartref neu heb gartref sicr fanteisio ar wasanaethau iechyd meddwl. (Pennod 4)	• Nifer / canran y cynlluniau gofal a thriniaeth sy'n ymdrin ag anghenion tai (yn ôl tystiolaeth archwiliad lleol) • Gwasanaethau iechyd meddwl i drefnu bod person cyswllt yn cael ei enwebu i roi cyngor ac arweiniad i bob tîm digartrefedd

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
8.2. Cynorthwyo pobl â phroblemau iechyd meddwl i barhau i weithio ac i'w gwneud yn haws i'r rhai sy'n ddi-waith gael gwaith a hyfforddiant.	Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i gyflwyno'r rhaglen '<i>Law yn Llaw at Gymru Iach ar Waith</i>.' Caiff fy rhaglen hon gymorth ariannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac mae'n cynnwys gwasanaethau i'r rhai mewn gwaith a'r di-waith. 8.2(i) Bydd y gwasanaeth i'r di-waith yn creu mwy o gyfleoedd gwaith a hyfforddiant i'r rhai â phroblemau iechyd meddwl - erbyn mis Mawrth 2019. (Pennod 1) 8.2(ii) Bydd y gwasanaeth i'r rhai mewn gwaith yn helpu pobl â phroblemau iechyd meddwl i barhau i weithio – erbyn mis Mawrth 2019. (Pennod 1)	• Cynnydd yn nifer y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl sy'n cael gwaith, addysg neu waith gwirfoddol, neu sy'n gwella'u sefyllfa yn y farchnad lafur mewn ffyrdd mesuradwy eraill fel cymryd rhan mewn hyfforddiant chwilio am waith • Nifer y bobl sy'n manteisio ar gynllun mentora gan gymheiriaid • Cynnydd yn nifer y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl sy'n defnyddio rhwydweithiau cymorth, neu sy'n ei chael yn haws eu defnyddio • Nifer y bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl sy'n cael cymorth gan y Gwasanaethau Cymorth mewn Gwaith • Cynnydd yn nifer y cyflogwyr (a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol) sy'n helpu i feithrin a gwella dealltwriaeth o iechyd meddwl • Nifer y cynlluniau gofal a thriniaeth sy'n ymdrin ag anghenion cyflogaeth (yn ôl tystiolaeth archwiliad lleol) • Canran y rhai sy'n gweithio sy'n rhan o Gymru Iach ar Waith
8.3 Sicrhau bod cyngor a chymorth ynghylch materion ariannol ar gael i bobl â phroblemau iechyd meddwl.	8.3(i) Byrddau iechyd a darparwyr yn y trydydd sector i sicrhau bod cynlluniau gofal a thriniaeth yn ystyried materion ariannol ac yn sicrhau bod y bobl berthnasol yn cael y cyngor priodol – erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 4) 8.3(ii) Llywodraeth Cymru i sicrhau bod	• Canran y cynlluniau gofal a thriniaeth sy'n nodi anghenion ariannol ac sy'n helpu pobl i gael y cyngor priodol (yn ôl tystiolaeth archwiliad lleol)

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	anghenion y rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun cyflenwi Cynhwysiant Ariannol a gaiff ei baratoi – erbyn mis Rhagfyr 2016. (Pennod 4)	
8.4 Sicrhau bod gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar adfer iechyd meddwl ar gael.	8.4(i) Iechyd Cyhoeddus Cymru (gwasanaeth 1000 o fywydau +) i ddatblygu hyfforddiant ar ddulliau o adfer iechyd meddwl e.e. set ddysgu sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr, clinigwyr a rheolwyr i'w galluogi i ddatblygu egwyddorion adfer iechyd meddwl neu gymorth gan gymheiriaid a gwella gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar adfer iechyd meddwl, a chanlyniadau cynlluniau gofal a thriniaeth - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 3)	• Cynllun gofal a thriniaeth gan 90% o ddefnyddwyr gwasanaethau yn unol â tharged haen 1 ar gyfer y mesur iechyd meddwl • Archwilio cynlluniau gofal a thriniaeth er mwyn medru nodi amcanion sy'n canolbwyntio ar adfer iechyd meddwl ym mis Mawrth 2018 a 2019 • Cynnwys casgliadau arolygon bodlonrwydd yn ymwneud Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol â chynlluniau gofal a thriniaeth mewn adroddiadau blynyddol byrddau partneriaeth lleol.

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
Maes blaenoriaeth 9 - Mae Cymru yn wlad sy'n deall dementia		
9.1 Gwella ansawdd bywyd a'r gofal a gaiff pobl sydd â dementia, neu sydd mewn perygl o gael dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt, drwy roi'r fenter <i>Cymru: Cenedl sy'n Deall Dementia</i> ar waith.	9.1(i) Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i baratoi cynllun strategol ar gyfer dementia erbyn mis Rhagfyr 2016 i ymdrin â'r cyfnod rhwng 2017 a 2019. 9.1(ii) Llywodraeth Cymru, a'i phartneriaid, i sicrhau bod pobl Cymru yn ymwybodol o'r camau y gallant eu cymryd i leihau'r risg o gael dementia - erbyn mis Mawrth 2017 gan adolygu cynnydd bob blwyddyn. (Pennod 1) 9.1(iii) Byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector i gynyddu nifer y bobl yng Nghymru sy'n ymwybodol o arwyddion dementia, ac sy'n deall sut i gael cymorth ychwanegol, a chreu rhagor o gymunedau sy'n deall dementia - erbyn mis Medi 2016 gan adolygu cynnydd bob chwe mis. (Pennod 1) 9.1(iv) Byrddau iechyd i ddarparu gweithwyr cymorth gofal sylfaenol i weithio mewn clystyrau, i roi cymorth, gwybodaeth a chynghorwyneb yn wyneb ynghylch cael y gofal a'r gwasanaethau priodol i'r rhai sydd newydd gael gwybod bod dementia arnynt - erbyn mis Medi 2016. (Pennod 2) 9.1(v) Byrddau iechyd i sicrhau bod	• Cynnydd yn nifer y cyfeillion / hyrwyddwyr dementia yng Nghymru • 60% o staff wedi cael yr hyfforddiant priodol ar gyfer eu rôl fel y nodir ym mhrosiect cydweithredol Cymru i feincnodi dementia • Y nifer ar Gofrestri Dementia meddygon teulu (y targed ar gyfer 2016 yw sicrhau bod 50% o ddiodefwyr yn cael diagnosis, a'r targed i godi bob blwyddyn ar ôl hynny) • Canran y timau mewn meddygfeydd sydd wedi cwblhau cwrs gofal dementia fel rhan o Wasanaethau Ychwanegol Uniongyrchol ym maes iechyd meddwl • O leiaf un gweithiwr cymorth dementia am bob 2 glwstwr meddygon teulu drwy Gymru • Pawb sy'n cael gwybod mewn clinig cof fod dementia arnynt yn cael eu cyfeirio at weithiwr cymorth dementia ar ôl cael y diagnosis. (Archwiliad) • Gwasanaeth cyswllt seiciatrïg ym mhob ysbyty cyffredinol dosbarth • Wardiau iechyd meddwl pobl hŷn yn darparu rhaglen weithgareddau therapiwtig lawn yn seiliedig ar dystiolaeth (Archwiliad)

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	gwasanaethau cyswllt effeithiol ar waith i ddiwallu anghenion pobl â nam gwybyddol / dementia neu broblemau iechyd meddwl mewn ysbytai cyffredinol dosbarth - erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 3) 9.1(vi) Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i ddatblygu gwaith prosiect cydweithredol i feincodi dementia a gaiff ei fabwysiadu gan bob sefydliad wrth ddatblygu hyfforddiant a datblygiad i'r gweithlu - erbyn mis Mehefin 2016. (Pennod 5) 9.1 (vii) Byrddau iechyd, drwy'r gymuned ymarfer pobl hŷn, i barhau i ganolbwyntio ar wella gwasanaethau gan ddefnyddio canlyniadau hapwiriadau iechyd meddwl pobl hŷn fel rhan o'u cynllun gweithredu dwy flynedd – erbyn mis Mawrth 2017. (Pennod 3) 9.1(viii) Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i weithio gyda Chyngor Gofal Cymru i gydlynw'r gwaith o addysgu a datblygu'r gweithlu gofal cymdeithasol sy'n rhoi gofal a chymorth i'r rhai sy'n byw â dementia - erbyn mis Mawrth 2018. (Pennod 5)	
Maes blaenoriaeth 10. Mae safon byw pobl hŷn yn gwella, yn enwedig drwy leihau unigrwydd ac unigedd.		

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
10.1 Gwella iechyd a lles pobl hyn yng Nghymru drwy leihau unigrwydd ac unigedd .	10.1(i) Llywodraeth Cymru (lechydd a Gwasanaethau Cymdeithasol) i weithio gyda Heneiddio'n Dda yng Nghymru i fwrw ymlaen â rhaglen waith sy'n ceisio lleihau unigrwydd ac unigedd ymhlith y boblogaeth hyn - erbyn mis Mawrth 2019. (Pennod 1)	Graddfa De Jong Giervelf – y ganran sy'n dweud eu bod yn teimlo'n unig yn emosiynol ac yn gymdeithasol <i>Bydd rhwydwaith Heneiddio'n Dda Cymru yn sefydlu set o fesurau perfformiad priodol drwy eu rhaglen waith.</i>
Maes blaenoriaeth 11: Sut y bydd y strategaeth yn parhau i gael ei rhoi ar waith		
11.1 Sicrhau bod y seilwaith priodol ar waith i fodloni gofynion <i>Law yn Llaw at Iechyd Meddwl</i>	11.1(i) Byrddau iechyd i adolygu trefniadau eu Byrddau Partneriaeth Lleol i sicrhau bod y seilwaith ar waith i gyflawni eu hymrwymadau o fewn y cynllun cyflawni newydd ac i fodloni gofynion Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, gan gynnwys cynnal adolygiad o'r aelodaeth a'r cylch gorchwyl - erbyn mis Mehefin 2016 (Pennod 5) 11.1(ii) Llywodraeth Cymru (lechydd Meddwl a Grwpiau Agored i Niwed) a'r byrddau iechyd lleol i sicrhau bod y Byrddau Partneriaeth Cenedlaethol a Lleol yn bodloni'r gofynion sylfaenol, sef bod dau ddefnyddiwr gwasanaethau a dau ofalwr yn aelodau craidd o'r byrddau hyn a sicrhau eu bod yn cael y cymorth priodol i ymgymryd â'r gwaith - erbyn mis Mehefin 2016, ac adolygu'r sefyllfa bob blwyddyn wedi hynny (Pennod 5)	- Cytuno ar feini prawf gwerthuso sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. - Pob bwrdd iechyd yn cyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol - Adolygu Adroddiadau Blynyddol Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Partneriaeth Lleol a'r Ymddiriedolaeth ar Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
11.2 Bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu a gweithredu set ddata graidd genedlaethol ar gyfer iechnyd meddwl sy'n nodi canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau.	11.2 (i) Iechyd Cyhoeddus Cymru (gwasanaeth gwella 1000 o fywydau) i helpu ymhellach i ddatblygu set ddata graidd ar gyfer iechnyd meddwl (MHCDS) i safoni mesurau data. Datblygu mesurau newydd i gofnodi anghenion sydd heb eu diwallu ac i fonitro canlyniadau gwasanaethau gan ailadrodd profion asesu. Bydd y set ddata graidd yn cynnwys mesurau penodol ar gyfer gwasanaethau arbenigol CAMHS, a gwasanaethau iechnyd meddwl i oedolion ac oedolion hŷn - erbyn mis Rhagfyr 2016. (Pennod 5) 11.2(ii) Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i helpu i roi llwyfan technoleg gwybodaeth cenedlaethol ar waith (drwy gyfrwng prosiect Gwybodeg Gofal Cymunedol Cymru) i'w integreiddio ar gyfer gwasanaethau iechnyd meddwl a gwasanaethau gofal cymdeithasol - erbyn mis Gorffennaf 2019. (Pennod 5) 11.2 (iii) Llywodraeth Cymru (Polisi Tai) i ddadansoddi data defnyddwyr gwasanaethau Cefnogi Pobl gan ddefnyddio cronfa ddata Cyswllt Gwybodaeth Ddiogel Ddienw (SAIL) i ddeall yr effaith a gaiff y cymorth cysylltiedig â thenantiaid ar wasanaethau'r GIG (Parhaus). (Pennod 4)	• Yr holl fyrddau iechnyd a'r awdurdodau lleol i ymuno'n raddol â phrosiect Gwybodeg Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), sef llwyfan technoleg gwybodaeth cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau iechnyd meddwl, sy'n cynnwys gofynion set ddata graidd gyffredin / wedi'u safoni'n genedlaethol (MHCDS), yn unol â'u prosesau caffael a'r prosesau eraill y mae angen eu hadolygu bob blwyddyn . • Defnyddio data o wahanol ffynonellau wrth baratoi cynlluniau ac asesu anghenion.
11.3 Sicrhau gweithlu cymwys a chynaliadwy sy'n helpu pobl i wella'u hiechnyd yn ogystal â thrin eu salwch	11.3 (i) Byrddau iechnyd i adolygu systemau darparu gwasanaethau a strwythurau staffio ac i sicrhau bod cyfansoddiad y gweithlu a	• Blaenoriaethau a chynlluniau ar gyfer newid y gwasanaeth wedi'u sefydlu

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
	sgiliau'n diwallu anghenion y gwasanaeth - erbyn mis Mawrth 2018. (Pennod 5) 11.3(ii) Llywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd i weithredu Fframwaith Sgiliau a Datblygu Gyrfa Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd Clinigol GIG Cymru - erbyn mis Medi 2016. (Pennod 5)	• Data am y gweithlu ar gael ac yn cael ei ddefnyddio gan gynnwys tueddiadau demograffig a dadansoddiad llawn o'r sector, yn ôl tystiolaeth y cynlluniau tymor canolig integredig. • Cydnabod a bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yr ymarferwyr presennol – ar sail y dystiolaeth a geir yn adolygiadau'r byrddau lleol o ddatblygiad personol / DPP staff a data arfarniadau a hyfforddiant. • Cofnodion staff electronig i gynnwys y data priodol am DPP a hyfforddiant gorfodol • Rhoi blaenoriaeth i ddatblygu'r gweithlu cyfan yn y cynlluniau tymor canolig integredig
11.4 Sicrhau y bydd arian yn parhau i gael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl.	11.4(i) Byrddau iechyd i ddangos eu bod yn cadw at y dyraniadau iechyd meddwl a glustnodwyd iddynt ac esbonio sut y mae eu gwariant yn gwella canlyniadau pobl â phroblemau iechyd meddwl – bob blwyddyn o 2016 ymlaen. (Pennod 5)	• Yn eu hadroddiadau blynyddol ar <i>Law yn Llaw at Iechyd Meddwl</i> a'u cynlluniau tymor canolig integredig, y byrddau iechyd i nodi sut y maent yn cadw at y dyraniadau a glustnodwyd iddynt.
11.5 Parhau i hyrwyddo a hybu lles a chadernid emosiynol gan ddarparu gwasanaethau effeithiol a buddiol, yn gynnar, yn ogystal â sicrhau bod y rhai y mae angen gwasanaethau arbenigol arnynt yn cael gofal a thriniaeth o'r radd flaenaf.	11.5 (i) Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) a'r byrddau iechyd i gydymffurfio â'r ddyletswydd i adolygu'r argymhellion sy'n codi yn dilyn y gwaith o werthuso'r modd y rhoddir <i>Mesur Iechyd Meddwl 2010 (Cymru)</i> ar waith - erbyn mis Mawrth 2019. (Pennod 5)	• Y byrddau iechyd i gyflwyno adroddiad ar y modd y maent yn cydymffurfio â'r ddyletswydd i adolygu argymhellion yn eu hadroddiadau blynyddol ar <i>Law yn Llaw at Iechyd Meddwl</i> a'u cynlluniau tymor canolig integredig • Llywodraeth Cymru i gyflwyno adroddiad

<u>Nod</u>	<u>Camau allweddol – Sut y byddwn yn gwneud hyn a phryd</u>	<u>Sut y byddwn yn gwybod – Mesurau Perfformiad</u>
		ar y modd y mae'n cydymffurfio â'r ddyletswydd i adolygu argymhellion drwy'r Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol a'r adroddiadau blynyddol.
11.6 Parhau i hybu dulliau o weithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth a sicrhau bod gwaith ymchwil a gwerthuso yn ganolog i'r broses o ddatblygu gwasanaethau.	11.6 (i) Llywodraeth Cymru a'i holl bartneriaid i barhau i ymchwilio, gwerthuso ac archwilio'r gwasanaethau a'r ymyriadau presennol yn ogystal ag unrhyw ddarpariaeth newydd. (Pennod 5)	Cyflawni amcanion y rhaglen o fewn y cyllid a ddyfarnwyd i'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer lechyd Meddwl, erbyn mis Ebrill 2018.